

# Manifesto

CEFNOGI TRYDYDD SECTOR CAERDYDD



## Yn y rhifyn hwn:

- Stori am gymorth gan C3SC
- Cyfarfod â'n rheolwr clwstwr newydd
- Rhaglen hyfforddi newydd C3SC
- ... a mwy

ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2013/14 Y TU MEWN

# Hyfforddiant C3SC ar gael cyn bo hir

Bydd rhaglen hyfforddi C3SC yn eich helpu i redeg eich sefydliad yn fwy effeithiol ac yn datblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth. Caiff ein hyfforddiant ei gyflwyno gan ddarparwyr achrededig ac yn aml mae am ddim.

Edrychwch isod i weld pa gyrsiau sydd gennym ar y gweill ac ewch i [www.c3sc.org.uk/training-events/c3sc-training](http://www.c3sc.org.uk/training-events/c3sc-training) i gael mwy o wybodaeth. Gellir darparu hyfforddiant C3SC hefyd fel ateb mewnol ar gyfer eich sefydliad.

## RHEOLI A LLYWODRAETHU

### Recriwtio a Dethol Staff, a'r Broses Gynefino

**Dydd Mercher 3 Rhagfyr o 10am tan 4pm**

Mae rheoli sefydliadau yn y trydydd sector yn rhoi boddhad, ond gall hefyd fod yn gymhleth. Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddarganfod yr hyn y mae angen ei wybod am gyflogi staff mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ac arfer gorau.

### Sut i Ddatblygu Sgiliau Cadeirio

**Dydd Mawrth 16 Rhagfyr o 5.00pm tan 8.00pm**

Bydd y cwrs hwn yn darparu sgiliau ymarferol i chi, ynghyd â'r wybodaeth a'r hyder i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol.

### Busnes a Chynllunio Strategol

**Dydd Iau 15 Ionawr o 10am tan 4pm**

Bydd y cwrs llawn gwybodaeth hwn yn helpu sefydliadau i ddeall pwysigrwydd a buddiannau cynllunio hirdymor ac yn darparu'r adnoddau ymarferol i gynllunio'n fwy effeithiol.

### Cyfrifyddiaeth Sylfaenol

**Dydd Mercher 21 Ionawr o 10am tan 4pm**

Mae'r cwrs ymarferol hwn yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i sefydlu system ariannol syml ar gyfer eich sefydliad.

## CYLLID A CHODI ARIAN

### Comisiynu heb y Cymhlethdod

**Dydd Mercher 10 Rhagfyr o 10am tan 4pm**

Mae'r hyfforddiant hwn yn egluro'r broses o gomisiynu, a bydd yn eich helpu i ddeall goblygiadau comisiynu a thendro o ran eich sefydliad chi.

### Rhoi gan Unigolion

**Dydd Mercher 7 Ionawr o 10am tan 4pm**

Mae'r cwrs hanfodol hwn yn edrych ar sut i greu strategaeth effeithiol i dargedu rhoddion gan unigolion, gan gynnwys rhoi drwy'r gyflogres, codi arian, rhoddion misol ac ymgyrchoedd codi arian.

### Codi Arian Cymunedol

**Dydd Mercher 11 Mawrth o 10am tan 4pm**

Mae'r sesiwn hon yn archwilio sut i gynyddu cyfleoedd codi arian i'r eithaf trwy weithio gyda chymunedau lleol, ac yn dangos pa mor bwysig yw marchnata er mwyn penderfynu ar weithgareddau codi arian priodol.



## CYFATHREBU A DYLANWADU

### Cyflwyniad i'r Cyfryngau Cymdeithasol

**Dydd Mercher 14 Ionawr o 10am tan 4pm**

Bydd y cwrs hwn yn eich cyflwyno i elfennau sylfaenol y cyfryngau cymdeithasol - Twitter, Facebook, Tumblr, a gwasanaethau newydd ar-lein a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae'n cynnwys diffinio'r neges rydych chi'n dymuno'i chyfleu, ysgrifennu negeseuon effeithiol ac ymateb i ddarlennwyr, a beth i beidio â'i wneud.

### Sgiliau ar gyfer Gweithio gyda Chymunedau

**Dydd Mercher 11 Chwefror o 10am tan 4pm**

Dysgwch sut i oresgyn ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan - gan greu ymgyrchoedd a gwasanaethau cryf a chynhwysol. Enillwch sgiliau i ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned a dysgwch sut i gael pobl i weithio gyda'i gilydd i wella eu cymuned.

## PROFIADAU DYSGU YMARFEROL

### Arweinyddiaeth Chwaraeon

**Dydd Mercher 4 Chwefror o 10am tan 4pm**

Cynlluniwyd y cwrs arloesol hwn i feithrin sgiliau arweinyddiaeth y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o chwaraeon a / neu sefyllfaoedd hamdden, yn ogystal â chyfrannu at eich datblygiad personol.

### Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng yn y Gweithle

**Dydd Mercher 4 Mawrth o 10am tan 4pm**

Mae'r cwrs achrededig hwn, a ddarperir mewn partneriaeth â First Rate Training, yn addas i bobl sydd wedi cael eu henwebu'n 'unigolion penodedig' o fewn y gweithle.

I gael manylion llawn a phrisiau:

Gwefan [www.c3sc.org.uk/training-events/c3sc-training](http://www.c3sc.org.uk/training-events/c3sc-training)

Rhif ffôn (029) 2048 5722

E-bost [training@c3sc.org.uk](mailto:training@c3sc.org.uk)

## Cyfleoedd i rwydweithio

Mae C3SC yn cefnogi amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau, rhai ohonynt mewn partneriaeth, sy'n canolbwyntio ar broblemau penodol sy'n effeithio ar gymunedau yng Nghaerdydd.

Mae croeso i bob sefydliad trydydd sector sy'n gweithio, neu â diddordeb, yn y meysydd dan sylw fod yn aelod. Bwriad y cyfleoedd rwydweithio hyn yw galluogi sefydliadau i ymgysylltu â'i gilydd, i rannu gwybodaeth ac arfer da, ac i ddylanwadu ar bolisi.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae aelodau rwydweithiau wedi cael eu hannerch gan nifer o siaradwyr allanol, er enghraifft o sefydliadau trydydd sector cenedlaethol ac aelodau etholedig. Rydym hefyd wedi cydgyssylltu ymatebion ar nifer o faterion polisi ac wedi archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno ag unrhyw rai o'r rwydweithiau, rhoddir y manylion cyswllt isod. Byddwn yn gofalu eich bod yn cael eich cynnwys ar y rhestr bostio ar gyfer papurau cyfarfodydd perthnasol a bwletinâu.

### I gael gwybod mwy am y canlynol -

- Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd
- Rhwydwaith Darparwyr Cyngor Caerdydd
- Rhwydwaith Addysg Gynaliadwy Caerdydd
- Grŵp Rhwydwaith Cefnogaeth a Gwybodaeth i Ofalwyr
- cysylltwch â Kevin yn [kevin.r@c3sc.org.uk](mailto:kevin.r@c3sc.org.uk)
- Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel a Chydlynus Caerdydd
- Rhwydwaith Rhyng-ffydd De Caerdydd
- Rhwydwaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Caerdydd
- cysylltwch â Katie yn [katie.m@c3sc.org.uk](mailto:katie.m@c3sc.org.uk)
- Rhwydwaith Cydgyssylltwyr Gwirfoddolwyr Caerdydd (mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol (VCS) Caerdydd
- cysylltwch â Nathan yn [nathan.w@vcscardiff.org.uk](mailto:nathan.w@vcscardiff.org.uk)
- Rhwydwaith Dysgu a Menter yn y Trydydd Sector Caerdydd
- cysylltwch â Thoria yn [thoria.m@c3sc.org.uk](mailto:thoria.m@c3sc.org.uk)
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector Caerdydd
- Rhwydwaith Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Caerdydd
- Rhwydwaith Cydgynhyrchu Caerdydd ar Fro
- Rhwydwaith Darparwyr Tai
- Fforwm y Trydydd Sector Caerdydd
- Symposiwm y Trydydd Sector Caerdydd
- cysylltwch â Sheila yn [sheila.h@c3sc.org.uk](mailto:sheila.h@c3sc.org.uk)

Ein gweledigaeth yw trydydd sector cryf, amrywiol ac egniol yng Nghaerdydd.

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd  
Llawr Daear  
Tŷ Brunel, 2 Heol Fitzalan,  
Caerdydd CF24 0EB

Rhif ffôn: (029) 2048 5722  
E-bost: [enquiries@c3sc.org.uk](mailto:enquiries@c3sc.org.uk)  
Gwefan: [www.c3sc.org.uk](http://www.c3sc.org.uk)  
Twitter: @C3SC  
LinkedIn: [www.linkedin.com/company/cardiff-third-sector-council](http://www.linkedin.com/company/cardiff-third-sector-council)

Elusen Gofrestredig 1068623.  
Cwmni Cyfyngedig drwy  
Warant yng Nghymru 3336421.  
Argraffwyd y cyhoeddiad  
hwn ar bapur cynaliadwy.



# Grandparents Raising Grandchildren – darllenwch eu stori

Ymddiriedolwyr Grandparents Raising Grandchildren yn adrodd hanes eu grŵp a sut maen nhw wedi elwa ar gymorth a chyngor C3SC.

“Ni yw ymddiriedolwyr presennol Grandparents Raising Grandchildren - Lee, Maureen a Susan - ac fe wnaethom ni gyfarfod yn gyntaf yn 2008, pan oedd y grŵp yn cyfarfod dan adain y Tîm Cyffuriau ac Alcohol (Newport Road, Caerdydd). Yn sgil y prosiect, daeth gofaluwr sy'n berthnasau ynghyd o bob cwr o Gaerdydd mewn cyfarfodydd a oedd yn archwilio materion fel cydgysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ysgolion a chael gafael ar gymorth ariannol. Er bod gofaluwr sy'n berthnasau'n cadw plant allan o ofal maeth - gan arbed miloedd o bunnoedd i'r awdurdod lleol a gwella rhagolygon y plant yn aruthrol - mae llawer o ofaluwr sy'n berthnasau yn cael eu handwyo'n ariannol, ac mae ar dad-cuod a mam-guod yn enwedig angen cymorth emosiynol ac ymarferol i fagu ail set o blant, ugain mlynedd a mwy ers y tro cyntaf.

“Ym mis Mehefin 2013, pan oedd y prosiect dan adain Rhwydwaith Rhieni Caerdydd, clywsom na fyddai rhagor o gyllid ar gael. Roeddem yn cynnal cyfarfodydd grŵp cymorth yn fisol yn Neuadd y Ddinas ac yn gwneud llawer o ffrindiau yn y byd gwleidyddol, ond roeddem yn pryderu y byddai'r grŵp yn dod i ben pe byddai'r cymorth gan Rhwydwaith Rhieni Caerdydd yn dod i ben. Dyna pryd y gwnaethom ni gysylltu â Chyngor y Trydydd Sector, Caerdydd am gyngor ynglŷn â sefydlu grŵp annibynnol.”

## C3SC yn cynnig cymorth

“Daeth Katie, un o swyddogion trydydd sector C3SC, i gyfarfod â ni ychydig wythnosau'n ddiweddarach. Fe wrandawodd wrth inni egluro ein sefyllfa a'n pryderon - roedd gennym lawer o brofiad yn ein bywydau gwaith a thrwy fod yn ofaluwr ond dim yn benodol ynglŷn â rhedeg elusen fach!

“Tawelodd Katie ein meddyliau y gallem fod yn ymddiriedolwyr ar ein grŵp ein hunain ac fe dreuliodd amser yn egluro beth roedd hynny'n ei olygu, gan gynnwys cyfrifoldebau ymddiriedolwyr a sut i sicrhau ein bod yn llywodraethu'n hasedau a'n harian yn effeithiol. Fe helpodd ni i ysgrifennu cyfansoddiad hefyd, ac ar ôl ei fabwysiadu yn swyddogol ychydig wythnosau'n ddiweddarach, fe wnaethom ei ddefnyddio i agor cyfrif banc grŵp bach.

“Cawsom gyfarfod arall â Katie yn hwyr ym mis Gorffennaf ac fe wnaeth hi chwiliad Grantfinder gyda ni. Gwelsom yn fuan y byddai'r holl grantiau yr oedd gennym ddiddordeb ynddynt yn gofyn am bolisiâu ynglŷn â sut roeddem yn rhedeg y grŵp, felly cawsom dri chyfarfod â Katie mewn cyfnod o bedair wythnos i ddrafftio ein polisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed - roedd yn llawer iawn o waith! Ar ôl ei roi ar



Maureen, Lee a Susan

waith, roeddem yn gallu ein sicrhau ein hunain a darpar gyllidwyr y byddem yn gallu gwneud y pethau cywir a hysbysu'r awdurdodau perthnasol petai rhywbeth yn cael ei ddatgelu yn ystod un o'n cyfarfodydd.

“Mabwysiadwyd polisiâu Cyfle Cyfartal ac Iechyd a Diogelwch hefyd, ac roedd y rhain yn hollbwysig er mwyn dangos i ddarpar gyllidwyr ein bod o ddifrif ynglŷn â chynorthwyo'n cefnogwyr yn effeithiol.”

## Cais am gyllid

“Gwnaethom gais am grant o £4,600 gan Arian i Bawb (Y Gronfa Loteri Fawr) ym mis Hydref 2013 ac roeddem wrth ein bodd yn clywed inni fod yn llwyddiannus. Cawsom help Katie i gynllunio ac ysgrifennu'r prosiect ac fe eisteddodd gyda ni wrth inni lenwi'r ffurflen - cymerodd rai oriau! Rydym nawr wedi prynu offer swyddfa a deunydd marchnata i'n helpu i gyrraedd mwy o bobl trwy ein gweithgareddau estyn allan. Mae'n bosibl eich bod wedi gweld rhai o'n taflenni yn rhai o archfarchnadoedd mawr Caerdydd, ac rydym hefyd yn yr Hyb yn Marland House bob dydd Llun i gyfarfod â gofaluwr sy'n berthnasau sy'n chwilio am gyngor a chefnogaeth.

“Rydym hefyd wedi cael cyngor gan C3SC ar sut i gyrraedd pobl ar-lein. Rydym wedi bod mewn dwy sesiwn hyfforddi ar sut i hyrwyddo'n hunain trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol - rydym yn tueddu i ddefnyddio Facebook i gadw mewn cysylltiad â'n haelodau a Twitter i gadw llygad ar yr hyn y mae'r gwleidyddion yn ei wneud! Rydym wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn cefnogaeth wych gan y Farwnes Anita Gale; Julie Morgan, Aelod y Cynulliad dros Ogledd Caerdydd; a Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - mae pob un ohonynt yn wirioneddol ddeall ein safbwynt ac yn gweithio'n galed i

godu ymwybyddiaeth o fam-guod a thad-cuod sy'n gofalu am eu hwyrion a'u hwyresau. Rydym hefyd wedi cysylltu ag adran gymunedol yr undeb llafur, Unite the Union, sy'n garedig dros ben yn rhoi man i ni gynnal ein cyfarfodydd cymorth misol am ddim, ac sydd wedi'n helpu i gyfarfod â grwpiau gofaluwr sy'n berthnasau ledled y DU, er mai ni yw'r unig grŵp o'r fath yng Nghymru.

## Cip i'r dyfodol

“Bydd ein gweithgareddau yn y dyfodol yn cynnwys parhau â'n cyfarfodydd cymorth a chynyddu ein haelodaeth - mae gennym aelodau sy'n teithio o gyn belled ag Abertawe, felly rydym yn awyddus i ddechrau cynnal cyfarfodydd ar wahân yn y de-orllewin. Gwyddwn y gall ein hincwm godi i dros £5,000 ar ryw bwynt, a phan ddigwydd hynny byddwn yn mynd yn ôl at C3SC am gyngor ynglŷn â chofrestru fel elusen a dewis strwythur cyfreithiol.

“Mae wedi bod yn daith anhygoel mewn cyfnod o ychydig yn fwy na blwyddyn, ac rydym yn hynod gyffrous ynglŷn â'r dyfodol i ofaluwr sy'n fam-guod neu dad-cuod ledled Cymru - ar plant rydym ni'n gwneud hyn ar eu rhan.”

Cewch gysylltu â Grandparents Raising Grandchildren ar [facebook.com/GRGCardiff](https://www.facebook.com/GRGCardiff), Twitter [@GRGCardiff](https://twitter.com/GRGCardiff) neu trwy anfon e-bost at [grgsupportcardiff@hotmail.com](mailto:grgsupportcardiff@hotmail.com) Mae'r grŵp hefyd yn rhedeg llinell gymorth ar gyfer gofaluwr sy'n berthnasau ar **07759 241720 / 07875 732337**.

Ffoniwch C3SC ar **(029) 2048 5722** neu anfonwch e-bost at [enquiries@c3sc.org.uk](mailto:enquiries@c3sc.org.uk) os gallai eich grŵp, fel Grandparents Raising Grandchildren, elwa ar gefnogaeth gan C3SC.

# Arolwg rhanddeiliaid blynyddol C3SC

Diolch i bawb wnaeth gwblhau ein harolwg. Rydym yn rhoi cipolwg o'r canlyniadau isod. Mae'n amlwg, ond ddim yn syndod, o'r gwahanol sylwadau bod codi arian a chynaliadwyedd yn uchel ar yr agenda i nifer o sefydliadau.

## Ymatebwyr:

- Trydedd sector (74%)
- Sector cyhoeddus (6%)
- Sector preifat (6%)
- Arall (15%)

## Roedd themâu allweddol yn cynnwys:

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd wedi defnyddio gwasanaethau C3SC eu bod yn 'ddefnyddiol iawn' neu'n 'eithaf defnyddiol'
- O ran cynllunio a chanlyniadau, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (64%) fod ganddynt "strategaeth sy'n gysylltiedig â'u cenhadaeth a dealltwriaeth dda o'u hanghenion, ond bod lle i wella."
- Cytunodd y rhan fwyaf o'r 34 a ymatebodd (54%) eu bod "yn gwella o ran cynhyrchu incwm ond bod lle i wella."
- Teimlai 41% o'r ymatebwyr eu bod "yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ond bod lle i wella,"
- O safbwynt dysgu ac arloesi, dywedodd 46% "Rydym yn ymgorffori'r hyn a ddysgir o'r sylwadau a dderbyniwn i wella'r hyn a wnawn."
- Dywedodd 50% fod gan bobl y sgiliau y mae eu hangen er mwyn cyflawni eu rolau'n effeithiol "Ar y cyfan" ond bod "un neu ddau o feysydd lle mae diffyg sgiliau."
- Atebodd 50% "Mae ein bwrdd/pwyllgor rheoli yn mynd â'r sefydliad yn ei flaen, ac yn cydweithio'n dda i sicrhau llywodraethu da."
- Mae'r sylwadau'n awgrymu bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cymryd camau cadarnhaol o ran cyfathrebu a dylanwadu ar bolisi, gyda'r mwyafrif yn dweud fod "cyfathrebu'n dda" a'u bod "yn ymateb i rai ymgynghoriadau."

## Amgylchedd allanol:

Gofynnwyd pa rai o'r elfennau yn yr amgylchedd allanol sy'n cael yr effaith fwyaf ar eich sefydliad ac ar gyrraedd eich nod:

Effaith	Cadarnhaol	Cymysg	Negyddol	Dim effaith
Awdurdod Lleol	22%	41%	0%	37%
Bwrdd Iechyd Lleol	30%	37%	0%	33%
Asiantaethau iechyd eraill	23%	35%	0%	42%
Busnesau	12%	42%	0%	46%
Ymddiriedolaethau / sefydliadau eraill	33%	26%	0%	41%
Y cyhoedd	54%	36%	0%	11%

## Camau nesaf:

Byddwn yn bwydo'r ymatebion hyn i'n Cynllun Busnes a'i roi ar ein gwefan i dderbyn eich sylwadau.

O'r rhai a ddechreuodd lenwi'r arolwg, ychydig dros yr hanner a'i cwblhaodd, gan arwain at gyfradd ymateb oedd yn hanner un y llynedd. Byddwn yn cymryd hyn i ystyriaeth o ran sut rydym ni'n cyfathrebu â chi ynglŷn â'ch blaenoriaethau a'r pethau sy'n bwysig i chi.

Byddwn yn cyfathrebu'n well o ran ein cynnig i'r sector a'n partneriaid gan gynnwys:

- Cyfeiriadur aelodaeth y trydydd sector - bydd yn cynnwys map rhyngweithiol, yn gysylltiedig â'n blaenoriaeth o ran mapio trydydd sector Caerdydd
- Cyngor a chymorth - gan gynnwys chwilio ac ymgeisio am gyllid, ymyriadau unigol, ein llinell gymorth gyfrinachol
- Adnoddau - ystafelloedd cyfarfod, offer, llungopio - i'w llogi oddi wrth C3SC ac aelodau
- Cyfleoedd i rwydweithio ac ymgynghori
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch i gefnogi/cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cydweithredu a datblygu partneriaethau

## Ac yn y cyfamser, diolch i chi am eich sylwadau...

"Mae C3SC yn sefydliad da i ymgysylltu ag e. Mae'r staff rwy'n siarad â nhw'n wybodus, cyfeillgar ac effeithlon."

"Daliwch ati â'r gwaith da"

"... mae'r cyfarfodydd rhwydweithio wedi bod yn amhrisiadwy"

"Ers amser byr yn unig rydw i yn fy swydd ond rydw i'n teimlo'n barod fod C3SC yn adnodd a phwynt cyswllt gwerthfawr iawn."

Ein gweledigaeth yw trydydd sector cryf, amrywiol ac egniol yng Nghaerdydd



Sganiwch y cod hwn â'r Darlennydd QR ar eich ffôn clyfar i fynd yn syth i'n gwefan.

Dilynwch ni ar Twitter @C3SC

## Adolygiad Blynyddol: Ebrill 2013 i Fawrth 2014

Croeso i'r rhifyn hwn o Manifesto, sy'n cynnwys Adolygiad Blynyddol Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) ar gyfer 2013-14. Cymrwch foment i edrych ar brosiectau C3SC (tudalennau 7 - 8), ei weithgareddau a'i llwyddiannau yn ystod blwyddyn heriol i'r sefydliad, y trydydd sector a'n partneriaid.



Mae cyllid a chynaliadwyedd yn parhau i fod yn broblemau allweddol i'r sector, gan ymddangos dro ar ôl tro yn yr ymatebion i arolwg rhanddeiliaid diweddaraf C3SC. Mae C3SC yn cynnal cyrsiau hyfforddi sy'n helpu i feithrin gallu a chreu syniadau ym meysydd cynaliadwyedd a chyllid, gan gynnwys 'Comisiynu heb y Cymhlethod' a 'Codi Arian Cymunedol', a byddwn yn eich annog i fwrw golwg dros y rhestr cyrsiau ar dudalen 2.

Cofiwch hefyd fod swyddogion trydydd sector C3SC ar gael i helpu aelodau ac i gynnig cyngor ar gyllid, llywodraethu, rhwydweithiau a phynciau eraill. Beth am inni droi at ein gilydd am syniadau ac ysbrydoliaeth. Os oes gennych stori i'w rhannu ynglŷn â gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth â sefydliad arall neu rannu adnoddau i arbed arian, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych - er mwyn gallu adeiladu trydydd sector gwydn, cryfach a mwy cynaliadwy gyda'n gilydd yng Nghaerdydd.

Dymuniadau gorau

**Richard Edwards**  
Cadeirydd, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

O.N. Cofiwch fod C3SC yma i chi. Ffoniwch ni ar (029) 2048 5722 neu anfonwch e-bost at [enquiries@c3sc.org.uk](mailto:enquiries@c3sc.org.uk) i gael cymorth a chyngor.

## Gweithgareddau a llwyddiannau C3SC

Mae tîm C3SC wedi gweithio'n hynod o galed yn cynrychioli, cefnogi a datblygu sefydliadau gwirfoddol a gweithgarwch cymunedol, yn ymgyrchu drostynt, ac yn hyrwyddo gwirfoddoli. Dyma gipolwg ar rai o'r llwyddiannau allweddol:

- Cyngor a chymorth - mae ein swyddogion trydydd sector wedi cynorthwyo sefydliadau a grwpiau gwirfoddol i'w rhedeg eu hunain yn gynaliadwy trwy ddarparu hyfforddiant, digwyddiadau a chymorth unigol. Derbyniwyd ac atebwyd bron i 3,500 o ymholiadau; cawsom dros 62,000 o ymweliadau a'n gwefan; a rhoddodd dros 90% o'r 318 o bobl a ddilynodd ein 45 sesiwn hyfforddi, raddfa 'da' neu'ardderchog' i bob agwedd ar y cyrsiau.
- Mae prosiect Cyd-greu Newid Iach - a lanswyd yn swyddogol yn y Senedd ym mis Tachwedd - wedi gweithio gyda phartneriaid i gynorthwyo amrywiaeth eang o gymunedau yng Nghaerdydd ar Fro i'w helpu nhw i gael dweud eu dweud o ran cynllunio a chyflwyno gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles.
- Rydym wedi parhau i ymgysylltu â phartneriaid statudol trwy Fwrdd Partneriaeth Caerdydd ac amrywiol fforymau a grwpiau - gan gynnwys helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd ar Fro i ymgysylltu mwy â gwasanaethau trydydd sector a chymunedau trwy gyflawni cynllun gweithredu uchelgeisiol yn llwyddiannus. Daeth hyn â dylanwad y sector i fentrau pwysig, fel datblygu Canolfannau Gwybodaeth mewn safleoedd gwasanaeth iechyd, ymateb i'r ymgynghoriad ar gyfer Rhaglen De Cymru, a helpu'r sector i ddatblygu cysylltiadau ffurfiol ar rai sy'n gwneud penderfyniadau trwy ein Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'n Cynghair Cyflyrau Hir Dymor.
- Helpu Cyngor Caerdydd ag amrywiaeth o fentrau i hwyluso'r broses o ad-drefnu gwasanaethau mewn ymateb i'r lleihad mewn cyllid cyhoeddus - gan gynnwys cyfrannu at y cais llwyddiannus i'r Gronfa Gofal Integredig a chyflwyno'r Gronfa Bontio, a chynnal sesiynau gwybodaeth a rhoi cymorth unigol ar gyfer ceisiadau i'r Gronfa Partneriaethau Cymdogaethol.
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - enillodd C3SC achrediad ffurfiol am ein harferion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## Uwch Dîm Rheoli C3SC

Sheila Hendrickson-Brown – Prif Swyddog

Mair Henry – Rheolwr Ariannol a Swyddfa

Wendy Marinos – Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Dwyrain Caerdydd, Llanedeyrn a Phentwyn (ECLP)

*(Cewch gyfarfod ag aelodau eraill o'r staff ar dudalen 8)*

## C3SC ar LinkedIn

Wydech chi fod C3SC ar LinkedIn, sef y safle cyfryngau cymdeithasol proffesiynol? Dilynwch ni i weld y wybodaeth ddiweddaraf a manylion ein gwasanaethau.

Ewch i [www.linkedin.com/company/cardiff-third-sector-council](http://www.linkedin.com/company/cardiff-third-sector-council)



## Dilynwch ni ar Twitter

Cadwch mewn cysylltiad @C3SC – i gael gwybod beth sy'n digwydd yn y trydydd sector yng Nghaerdydd. Cewch fanylion hefyd am newyddion, hyfforddiant a digwyddiadau C3SC.

Dilynwch ni @C3SC



# Adolygiad Ariannol: Ebrill 2013 i Fawrth 2014

## “Diolch”

Llawer o ddiolch i'n cyllidwyr. Hebddyn nhw ni fyddai ein gwaith yn bosibl.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



ARIENNIR GAN Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED

## Diolchiadau

Diolch i'n hymddiriedolwyr a wasanaethodd mor ffyddlon yn 2013/14...

Roger Bone, Nick Corrigan, Richard Edwards, Michael Flynn, Judith John, Karen Jones, Terry Price, Gerald Puttock, Reynette Roberts a Sujatha Thaladi

...ac i

Ed Cole a James Davies sydd wedi'n gadael erbyn hyn.

Diolch hefyd i'r staff a'r gwirfoddolwyr sydd wedi'n gadael ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cymerwyd y ffigurau canlynol o'r datganiadau gweithredol drafft heb eu harchwilio ar Weithgarwch Ariannol Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (Cyfyngedig trwy Warant) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014.

Bydd y cyfrifon llawn, adroddiadau'r archwilwyr ar y cyfrifon hyn ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ar gael, ar ôl eu cwblhau, cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Ionawr 2015. Bydd copiau ar gael o fis Ionawr 2015 oddi wrth Gyngor Trydydd Sector Caerdydd, Llawr Gwaelod, Tŷ Brunel, 2 Fitzalan Road, Caerdydd CF24 0EB.

	2014	2013	2012
<b>ADNODDAU A DDERBYNIWYD</b>			
Incwm	1,443,090	822,926	773,863
<b>CYFANSWM YR ADNODDAU A DDERBYNIWYD</b>	<b>1,443,090</b>	<b>822,926</b>	<b>773,863</b>
<b>ADNODDAU A WARIWYD</b>			
Gwariant	1,440,958	746,278	741,020
<b>CYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD</b>	<b>1,440,958</b>	<b>746,278</b>	<b>741,020</b>
<b>ADNODDAU NET A DDERBYNIWYD/A WARIWYD</b>	<b>2,132</b>	<b>76,648</b>	<b>32,843</b>

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (Cyfyngedig drwy Warant)  
Mantolen 31ain Mawrth 2014 – Rhif Elusen: 1068623 Rhif Cwmni: 3336421

	2014	2013	2012
<b>ASEDAU SEFYDLOG:</b>			
Asedau diriaethol	6,165	8,784	12,072
<b>ASEDAU CYFREDOL:</b>			
Dyledwyr	90,256	39,551	33,357
Arian yn y banc	296,248	549,154	236,784
	<b>386,504</b>	<b>588,705</b>	<b>270,141</b>
<b>CREDYDWYR:</b>			
Y symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	96,897	303,849	65,222
<b>CYFANSWM YR ASEDAU NAMYN RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL</b>	<b>295,771</b>	<b>293,639</b>	<b>216,991</b>
<b>CRONFEYDD</b>	<b>295,771</b>	<b>293,639</b>	<b>216,991</b>
<b>ASEDAU NET</b>	<b>295,771</b>	<b>293,639</b>	<b>216,991</b>

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau arbennig yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud â chwmnïau bach ac yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol i Endidau Bach (a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2008).

(029) 2048 5722

## Cefnogi cymunedau, newid bywydau

### “Croeso, Wendy Marinos!”

Ym mis Awst 2014 croesawyd Wendy Marinos i C3SC fel Rheolwr Clwstwr newydd Dwyrain Caerdydd, Llanedeyrn a Phentwyn (ECLP).



Wendy Marinos

Ym mlwyddyn gyntaf Cymunedau yn Gyntaf ECLP, rhoddwyd y pwyslais ar ymgysylltu â llawer o drigolion dwyrain Caerdydd, Llanedeyrn a Phentwyn ac ar ddatblygu cysylltiadau cryfion â'r gymuned a sefydliadau partner yn yr ardal. O ganlyniad i hyn, mae gan fwy o bobl gymwysterau a chyfle i fanteisio ar glybiau gwaith cartref ac mwy o bobl ifanc wedi gwella eu canlyniadau yn yr ysgol. Diolch i'r clybiau gwaith y mae'r tîm wedi'u rhedeg a'u cefnogi, mae mwy o aelodau o'r gymuned mewn gwaith neu'n fwy parod i ddychwelyd i'r gweithle. Ac mae tîm ECLP o hyrwyddwyr iechyd gwirfoddol wedi bod yn helpu i ledaenu'r neges am iechyd da a mynd i'r afael ag ysmegu, gordewdra a goryfed mewn pyliau.

Dyma Wendy'n cyflwyno ei hun a'i gweledigaeth ar gyfer symud y prosiect ymlaen.

“Rwyf wrth fy modd i fod wedi ymuno â'r tîm fel Rheolwr Clwstwr newydd, ac i gael y cyfle i ddarparu'r gwasanaethau yn y gymuned y mae trigolion ECLP eu heisiau, gan eu helpu i wella eu bywydau.

“Yn y gorffennol, rydw i wedi gweithio i Cymru Gynnes, EAGA ac Energywatch. Rwyf hefyd wedi treulio peth amser gyda'r Gymdeithas Strôc. Ar ôl gweithio yn y sector preifat, roeddwn yn teimlo ei bod hi'n bryd i mi ddefnyddio fy sgiliau i helpu'r gymuned a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

### Edrych tuag at y dyfodol

“Rwy'n credu y gall Cymunedau yn Gyntaf ECLP gael effaith wirioneddol a hirdymor ar y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Gan ddefnyddio sgiliau ein staff a help ein partneriaid, a thrwy ddatblygu cyfraniad aelodau'r gymuned, gallwn sicrhau bod pawb sydd angen ein help yn ei dderbyn. Byddwn yn parhau â'n gwaith trwy ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd addysg a dysgu trwy weithgarwch, yn ogystal â digwyddiadau cymdeithasol.

“Ond rwy'n awyddus i glywed eich barn. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ddod o gwmpas a'ch cyfarfod chi, ac at glywed gennych yn uniongyrchol sut y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i wneud ein cymunedau mor llewyrchus ac iach â phosibl.”

I rannu eich syniadau ynglŷn â chlwstwr Cymunedau yn Gyntaf ECLP - anfonwch e-bost [eclp@c3sc.org.uk](mailto:eclp@c3sc.org.uk) neu ffoniwch Wendy ar (029) 2079 2004.

### Gwella iechyd a lles - gyda'n gilydd

Flwyddyn yn ddiweddarach mae Cyngor Trydydd Sector Caerdydd yn falch o gyhoeddi bod y prosiect Cyd-greu Newid Iach wedi ennill ei blwyf gan gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol a gwella bywydau aelodau'r gymuned. Y Gronfa Loteri Fawr sy'n ariannu Cyd-greu Newid Iach, ac mae'r fenter yn cefnogi deg prosiect iechyd a lles gan ddod ag amrywiaeth o wybodaeth ac arbenigedd o Gaerdydd â'r Fro ynghyd i alluogi defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau i gyfrannu at newid o ran cynllunio a chyflwyno gwasanaethau iechyd.

Mae'r prosiectau eisoes wedi mynd i'r afael â rhai problemau allweddol - fel gweld Meddygon Teulu, amseroedd ymateb y Gwasanaeth Ambiwlans a thynnu sylw at Ddigidwyddiadau Troseddau Casineb. Wrth iddynt ddod yn fwy ymwybodol o'r prosiectau yng Nghaerdydd â'r Fro, mae rhagor o ddarparwyr gwasanaethau statudol yn dod at Cyd-greu Newid Iach am syniadau a sylwadau. Y cam nesaf fydd cynyddu'r cyfleoedd i ddylanwadu ar wasanaethau a sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n fwy eang.

Meddai un aelod o'r gymuned, “Ni fyddwn wedi ceisio dylanwadu ar wasanaethau heb imi gael fy ngrymuso gan y prosiect hwn,” a dywedodd un darparwr gwasanaeth fod “cyfraniad [grŵp cymunedol] wedi'i gynnwys mewn adroddiad cwmpasu a gyflwynwyd i Gyngor Caerdydd” mewn cysylltiad â'u gwaith ar wella gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer teuluoedd.

### Mae'r deg prosiect yn gweithio gyda chymunedau penodol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg:

- Mae Alltudion ar Waith yn gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Action in Caerau and Ely - cenhadon cymunedol yn Nhrelái a Chaerau
- Gweithredu Dros Iechyd Meddwl Caerdydd â'r Fro - defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl
- Hafal - gofalywyr pobl â phroblemau iechyd meddwl
- Cymdeithas Alzheimer's - pobl yn byw â dementia a'u gofalywyr
- Gingerbread - teuluoedd ag un rhiant
- Media Academy Cardiff - pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd - pobl yn byw â chyflyrau hir dymor
- Diverse Cymru - Lleisiau Amrywiol
- Pobl yn Gyntaf Caerdydd a Phobl yn Gyntaf y Fro - pobl ag anableddau dysgu

I gael mwy o wybodaeth, ewch i <http://goo.gl/OCw3m9> a <http://co-creatinghealthychange.tumblr.com/> neu anfonwch e-bost at Kerrine Phillips, Cyd-gysylltydd Cyd-greu Newid Iach, yn [kerrine.p@c3sc.org.uk](mailto:kerrine.p@c3sc.org.uk)

### Bod yn gyfaill i bobl hŷn

Prosiect pedair blynedd yw Friendly AdvantAGE, wedi'i leoli yng Nghanolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro a'i gefnogi gan C3SC. Y nod yw 'bod yn gyfaill' er mwyn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd ym mywydau pobl dros 50 oed sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Mae llawer o alw o hyd am wasanaethau cyfeillio - yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cefnogwyd dros 300 o bobl gan brosiect Friendly AdvantAGE. Mae Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro, C3SC a phartneriaid allweddol yn canolbwyntio ar sicrhau cyllid a gofalu bod y gwasanaeth, y mae cymaint o'i angen, yn gynaliadwy er mwyn iddo gael parhau.

I gael mwy o wybodaeth am Friendly AdvantAGE, anfonwch e-bost at Sandra Roberts yn [Sandra@valecv.org.uk](mailto:Sandra@valecv.org.uk)



ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

## Swyddogion Trydydd Sector - yma i'ch helpu chi

Mae Swyddogion Trydydd Sector C3SC yn darparu cyngor cyfrinachol a gwybodaeth i'r trydydd sector - yn grwpiau cymunedol, elusennau, cymdeithasau a mentrau cydweithredol cymunedol, sefydliadau crefyddol a gwirfoddolwyr - ledled Caerdydd. Cewch eu ffonio neu anfon e-bost atynt i'w holi neu i gael cyngor ar amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys:

- Sefydlu grŵp
- Dewis y strwythur cyfreithiol cywir
- Cyllid, cynlluniau busnes a chynaliadwyedd
- Ymddiriedolwyr a llywodraethu
- Defnyddio gwirfoddolwyr a gwirfoddoli
- Meithrin cysylltiadau â darpar bartneriaid, partneriaethau cyhoeddus a'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau

Mae Swyddogion Trydydd Sector hefyd yn hwyluso rhwydweithiau'n ymdrin â meysydd polisi thematig allweddol sydd o ddiddordeb i'r sector (gweler tudalen 2) a gallant eich cyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth a gwybodaeth.

### Ein Swyddogion Trydydd Sector a'r ardaloedd o Gaerdydd a wasanaethir ganddynt:

**Peter Griffiths:** de-orllewin, gorllewin - e-bost [peter.g@c3sc.org.uk](mailto:peter.g@c3sc.org.uk)

**Katie Mallam:** dwyrain, y ddinas a'r de - e-bost [katie.m@c3sc.org.uk](mailto:katie.m@c3sc.org.uk)

**Thoria Mohamed:** gogledd, de-ddwyrain - e-bost [thoria.m@c3sc.org.uk](mailto:thoria.m@c3sc.org.uk)

**Kevin Rahman-Daultrey:** Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, waeth lle rydych chi yng Nghaerdydd - e-bost [kevin.r@c3sc.org.uk](mailto:kevin.r@c3sc.org.uk)

I drafod eich gofynion, ffoniwch (029) 2048 5722 neu anfonwch e-bost atom ni'n defnyddio'r manylion cyswllt uchod.

## Cyflwyniad i Gynghrair Cyflyrau Hir Dymor Caerdydd a'r Fro

Gyda chymorth C3SC, mae Cynghrair Cyflyrau Hir Dymor Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda phartneriaid, sefydliadau a'u defnyddwyr gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth o brofiadau pobl o gyflyrau iechyd cronig ac i ddyllanwadu ar welliannau yn y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd a chymorth eu cyflwyno.

Mae'r partneriaid yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Caerdydd ac amrywiaeth o sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda chyflwr hirdymor. Mae'r Gynghrair eisoes wedi cymryd rhan yng ngwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys cyfrannu at y Cynllun Cyflawni Niwrolegol ac annog grwpiau mewn perygl i gael brechiad rhag y fflw.

Meddai Jacqueline Jones ar ran C3SC: "Bydd y Gynghrair yn darparu un man cyswllt i alluogi sefydliadau a phartneriaid i ddod ynghyd, i rwydweithio a rhannu syniadau ynglŷn â chynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y broses o wneud penderfyniadau - gyda'r bwriad o ddatblygu i fod y sianel gyfathrebu gydnabyddedig i bobl yng Nghaerdydd a'r Fro sy'n byw â chyflwr hirdymor. Mae ganddi'r potensial i wneud gwahaniaeth arwyddocaol i'r modd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno, ac i fywydau pobl o ganlyniad."

I gael mwy o wybodaeth, anfonwch e-bost i [jacqueline.j@c3sc.org.uk](mailto:jacqueline.j@c3sc.org.uk) neu ffoniwch Jacqueline ar (029) 2048 5722.

## Cyfarfod â gweddill y tîm

### Cymunedau yn Gyntaf Dwyrain Caerdydd, Llanedeyrn a Phentwyn (ECLP)

#### Y Tîm Cymunedau Iachach

Anna Ros-Woudstra - Uwch Swyddog

David Poole - Uwch Swyddog

Helen Green - Swyddog Gwasanaethau

Iechyd

#### Y Tîm Cymunedau Dysgu

Steven Honeywill - Uwch Swyddog

Caroline Hardy - Swyddog Teuluoedd ac Ysgolion

Leanne Teichner - Swyddog Ehangu Mynediad at Ddysgu

Rachael Barry - Swyddog Ehangu Mynediad at Ddysgu

Joe Champion - Swyddog Cyfathrebu a

Chyfranogi

Janet Marks - Swyddog Cyswllt â Theuluoedd

Peter Croall - Swyddog Cyswllt â Theuluoedd

Karen Smith - Swyddog Cyswllt â Theuluoedd

Rachel Brydon - Swyddog Cyswllt â

Theuluoedd

#### Y Tîm Cymunedau Ffyniannus

Ginger Wiegand - Uwch Swyddog Dros Dro

Gareth Hicks - Mentor Twf Swyddi Cymru

#### Y Tîm Gweinyddu a Chyllid

Max Bayntun - Uwch Swyddog Gweinyddol

Howard Dobson - Swyddog Gweinyddol

#### Wedi'u lleoli yn Nhŷ Brunel, 2 Fitzalan Road

Peter Griffiths - Swyddog Trydydd Sector

Katie Mallam - Swyddog Trydydd Sector

Thoria Mohamed - Swyddog Trydydd Sector

Kevin Rahman-Daultrey - Hwylusydd Iechyd

a Gofal Cymdeithasol / Swyddog Trydydd

Sector

Kerrine Phillips - Cydgysylltydd y Prosiect

Cyd-greu Newid Iach

Sian Johns - Gweinyddwr y Prosiect Cyd-greu

Newid Iach

Jacqueline Jones - Hwylusydd y Gynghrair

Cyflyrau Hir Dymor

Rowena Shaw - Swyddog Gwybodaeth

Anne McDonough - Swyddog Gweinyddol

Suzy Youngman - Swyddog Gweinyddol

## C3SC yn cynrychioli'r trydydd sector o ran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae C3SC yn parhau i gefnogi ymrwymiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chyrrff eraill i sicrhau bod y trydydd sector yng Nghaerdydd yn cael cyfrannu at bynciau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y sector.

Eleni mae C3SC wedi cynorthwyo'r sector i gyfrannu at rai materion allweddol - gan gynnwys y cynigion i sefydlu canolfan cyngor a gwybodaeth newydd wrth ailddatblygu safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd, cyflwyno safbwynt y sector ar adolygiad Cymru gyfan o Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, a chefnogi ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn ddiweddar ar ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau Gerontoleg.

Dysgwch am y datblygiadau a chysylltwch â darparwyr trydydd sector eraill trwy ymuno â Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd. I gael mwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at Kevin Rahman-Daultrey yn [kevin.r@c3sc.org.uk](mailto:kevin.r@c3sc.org.uk)